Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# SAFONAU'R GYMRAEG

Adroddiad Blynyddol
Ebrill 2021 - Mawrth 2022

www.tancgc.gov.uk

# CYNNWYS

**1. Cyflwyniad: Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru 1**

**2. Crynodeb Gweithredol: Y Prif Swyddog Tân, Roger Thomas 2**

**3. Y cefndir a'r sefyllfa bresennol 3**

**4. Materion a gododd yn ystod y cyfnod adrodd 5**

**5. Safonau o ran Cyflenwi Gwasanaethau, Gweithredu a Llunio Polisïau 8**

**6. Safonau cadw cofnodion 16**

**7. Casgliad 27**

# 1. CYFLWYNIAD

Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth gyfoethog ein cymunedau ac arwyddocâd ein treftadaeth ddiwylliannol. Yn hynny o beth, rydym yn cydnabod o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, fod gan y Gymraeg statws cyfreithiol cyfartal â'r Saesneg yng Nghymru, ac ni ddylid ei thrin yn llai ffafriol. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau fod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gydradd wrth gynnal busnes cyhoeddus.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith cyfreithiol sy'n rhoi dyletswydd ar Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, ymhlith cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, i gydymffurfio â set o Safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Rydym ni, yr Awdurdod, yn parhau i ymateb i Safonau'r Gymraeg, gan ddefnyddio'r Safonau i sicrhau bod ein hymrwymiad a'n dyhead i ddarparu gwasanaethau mewn modd teg i bob ardal yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn cael eu datblygu ymhellach.

Rydym hefyd yn cydnabod dyletswydd yr Awdurdod i'n staff ein hunain, y mae'r mwyafrif ohonynt yn byw yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, ac yn adlewyrchu gwneuthuriad ieithyddol a diwylliannol eu cymunedau eu hunain.

Er gwaethaf yr heriau sylweddol sy'n ein hwynebu, rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig iawn herio a gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol i'n cymunedau. Rydym bob amser yn barod i newid, ac yn ffynnu ar ddod o hyd i ffyrdd newydd a gwell o wneud pethau. Trwy gynllunio'n ofalus, gallwn ystyried yr hyn yr ydym am ei wneud yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor i sicrhau ein bod yn adolygu ein gweithgareddau yn barhaus ac yn adeiladu gweithlu cynrychioliadol i'n helpu i ddarparu gwasanaethau sy'n gwbl gynhwysol, a gofalu bod gan ein staff a'n cymunedau fynediad at ein gwasanaethau yn iaith eu hangen a'u hiaith ddewisol.

Diolch yn fawr

Elwyn Williams,
Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

# 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, rydym yn glir y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn ymfalchïo yn ein hymrwymiad parhaus i'r Gymraeg, ac i gynyddu gwasanaethau dwyieithog a dewis iaith i'n staff a'n cymunedau o flwyddyn i flwyddyn.

Mae'r deuddeg mis diwethaf wedi bod yn gyfnod o newid sylweddol i'r Gwasanaeth. A minnau'n Brif Swyddog Tân newydd ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn dilyn ymddeoliad Chris Davies QFSM, mae'n bleser gennyf gyfrannu at yr adroddiad blynyddol hwn ar Safonau'r Gymraeg. Yn cyd-ddigwydd â'm penodiad diweddar i rôl y Prif Swyddog Tân, mae'r Gwasanaeth hefyd wedi cychwyn strwythur newydd o ran y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol a'r Cyfarwyddiaethau. Gyda phobl newydd yn y rolau mae yna bwyslais newydd, ac yn sgil y momentwm hwn gobeithiaf ddatblygu sefydliad sy'n parhau i gyflawni gydag egni, angerdd ac awydd. Fy mlaenoriaeth uniongyrchol, a blaenoriaeth ein Tîm Arweinyddiaeth Weithredol newydd, yw sicrhau bod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i adeiladu ar lwyddiannau diweddar.

Bydd Iwan Cray, ein Dirprwy Brif Swyddog Tân newydd, yn bennaeth ar y Gyfarwyddiaeth Rheoli Risgiau a Gwella, sy'n cynnwys arwain y gwaith o sicrhau cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg. Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i gynnal adolygiad parhaus o'n cydymffurfedd yn unol â Safonau'r Gymraeg, ac mae'r adolygiad hwnnw wedi llywio cynnwys yr adroddiad hwn sy'n amlinellu'r camau yr ydym wedi'u cymryd dros y deuddeg mis diwethaf i fodloni a chynnal ein cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu manylion am y cynnydd a wnaed mewn meysydd gwasanaeth allweddol, a chyflawniadau nodedig a fydd yn gwella ein gallu i ddarparu ein gwasanaethau yn ddwyieithog. Fodd bynnag, er bod cynnydd da wedi'i wneud, mae hefyd yn cydnabod bod yna waith parhaus i'w wneud i sicrhau ein bod yn darparu dewis iaith go iawn i'n cymunedau a'n staff. Rydym wedi nodi camau allweddol yn yr adroddiad hwn y byddwn yn eu blaenoriaethu yn feysydd ffocws i'w gwella yn ystod y deuddeg mis nesaf. Bydd y meysydd allweddol hyn yn parhau i adeiladu ar y gwaith a wnaed eleni i wella gallu dwyieithog ein Gwasanaeth.

Rydym am sicrhau bod gennym y nifer gorau posibl o staff dwyieithog mewn meysydd allweddol, sy'n adlewyrchu proffil iaith ein cymunedau. Felly, rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i hyrwyddo gweithleoedd dwyieithog a chreu amgylchedd cadarnhaol i'n staff a'n cymunedau fel y gallant ymgysylltu â ni'n ffurfiol ac yn anffurfiol trwy gyfrwng y Gymraeg. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i annog pob unigolyn sy'n dymuno defnyddio ei Gymraeg gyda ni i wneud hynny – p'un a yw'n dysgu Cymraeg, yn siaradwr rhugl neu'n gallu dweud gair neu ddau – mae croeso i bawb ddefnyddio'u Cymraeg gyda ni.

Diolch yn fawr
Roger Thomas.
Y Prif Swyddog Tân

## 3. Y CEFNDIR A'R SEFYLLFA BRESENNOL

### O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gan y Gymraeg statws cyfreithiol cyfartal â'r Saesneg, ac ni ddylid ei thrin yn llai ffafriol.

Ar 30 Medi 2016, cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg ei Hysbysiad Cydymffurfio i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, o dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r hysbysiad hwn yn nodi'r Safonau a osodir ar Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, ynghyd ag unrhyw eithriadau a'r dyddiadau y dylid eu gweithredu. Mae Hysbysiad Cydymffurfio Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gael yma ar ein gwefan.

Yn rhan o'r Hysbysiad Cydymffurfio, roedd yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi dogfen yn nodi'r modd yr oedd yn bwriadu cydymffurfio â'r Safonau ar lefel gorfforaethol, yn ogystal â nodi ei brosesau mewnol ar gyfer goruchwylio a monitro'r broses o weithredu'r Safonau, a hynny erbyn 30 Mawrth 2017. Mae Cynllun Gweithredu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gael yma ar ein gwefan.

O dan y ddeddfwriaeth, mae hefyd yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni a chynnal Safonau'r Gymraeg. Yr adroddiad blynyddol hwn ar gyfer 2021-22 yw gwerthusiad Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ein hunain o'r modd yr ydym wedi cydymffurfio â'r Safonau a'r modd yr

ydym wedi hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r adroddiad hwn ar gael, ynghyd ag adroddiadau blaenorol, yma ar ein gwefan.

## Atebolrwydd a chyfrifoldeb am y Gymraeg

Ar lefel yr Awdurdod, mae atebolrwydd am y Gymraeg yn gorwedd gyda Phwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Y Cynghorydd Mansel Charles oedd Hyrwyddwr yr Awdurdod Tân dros y Gymraeg yn ystod 2021-22. Cafodd yr Hyrwyddwr newydd dros y Gymraeg, Gwyn Wigley Evans ei benodi yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod ym mis Gorffennaf 2022.

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, y Bwrdd Gweithredol sydd â'r swyddogaeth reoli uchaf, ac mae'n cael ei arwain gan y Prif Swyddog Tân, Roger Thomas. Ar y Bwrdd Gweithredol, yr arweinydd gweithredol ar gyfer y Gymraeg yw'r Dirprwy Brif Swyddog Tân, Iwan Cray, sydd â chyfrifoldeb rheoli llinell dros yr adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes.

Mae gan y Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes, gyfrifoldeb strategol a gweithredol am y Gymraeg.

Mae gan Swyddog y Gymraeg, Clare Grist, gyfrifoldeb am weithredu'r safonau ac am hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg o ddydd i ddydd.

## Trefniadau ar gyfer cymeradwyo'r adroddiad hwn

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i Bwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad yr Awdurdod, a chafodd ei gymeradwyo ar 25 Gorffennaf 2022.

## Cwynion

Gallwch gyflwyno canmoliaeth, sylwadau a chŵynion am y Gymraeg yma.

# 4. MATERION A GODODD YN YSTOD Y CYFNOD ADRODD

## Newidiadau Sefydliadol

Bu cyfnod o newid mawr i'r Gwasanaeth yn ystod 2021-22 gydag ailstrwythuro gweithredol a olygodd newid pedair ardal Reoli yn dair ardal Ranbarthol, ynghyd â strwythur cymorth a aildrefnwyd. Penodwyd Roger Thomas yn Brif Swyddog Tân newydd i gymryd lle'r Prif Swyddog Tân Chris Davies a oedd yn gadael, a hynny o 6 Ebrill 2022.
Arweiniodd dyrchafiad Roger Thomas o fod yn Ddirprwy Brif Swyddog Tân, ynghyd â'r ailstrwythuro, at ad-drefnu, penodiadau newydd i'r Bwrdd Gweithredol, a chychwyn strwythur newydd o ran y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol a'r Cyfarwyddiaethau. Trosglwyddwyd cyfrifoldebau arweinydd gweithredol ar gyfer y Gymraeg o Roger Thomas i'r Dirprwy Brif Swyddog Tân newydd, sef Iwan Cray.

## Staffio

Parhaodd pandemig y Coronafeirws i greu heriau trwy gydol 2021-22, gan effeithio ar fywydau personol cyflogeion y Gwasanaeth, yn ogystal â'r ffordd yr oedd y Gwasanaeth yn gweithredu.

Bu yna heriau annisgwyl trwy gydol y rhan fwyaf o'r cyfnod adrodd oherwydd cyfrifoldebau gofal terfynol a oedd gan Swyddog y Gymraeg, a phrofedigaeth ddilynol. Aeth y cynllun gwaith yn ei flaen, ond roedd cynnydd yn arafach na'r disgwyl mewn rhai meysydd.

## Hunanreoleiddio – Adolygiad o Gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg

O ganlyniad i'r ailstrwythuro sefydliadol a'r newidiadau staffio, parhaodd yr Adolygiad o Gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg trwy gydol 2021-22. Cynorthwyodd Swyddog y Gymraeg y Penaethiaid Adran newydd i adolygu cydymffurfedd er mwyn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r Safonau a sicrhau dealltwriaeth o'u dyletswyddau deddfwriaethol. Adolygodd y Penaethiaid Adran eu datganiadau blaenorol a datblygwyd cynlluniau gweithredu. O ystyried rhychwant y newidiadau sefydliadol a'r newidiadau staffio, ni chyflawnwyd y cynllun gweithredu cydymffurfedd cyffredinol, yn ôl y bwriad yn 2021-22, ond byddwn yn gweithio i gyflawni hyn yn 2022-23. Mae materion penodol a nodwyd mewn adolygiadau cydymffurfedd wedi'u nodi yn unol â'r safonau perthnasol yn y tabl ar dudalennau 8-16.

Adolygwyd a datblygwyd canllawiau ynghylch safonau'r Gymraeg trwy gydol 2021-22, a bydd hynny'n parhau yn 2022-23. Datblygwyd canllawiau ar sail grwpiau o safonau, er enghraifft, Gohebiaeth, Galwadau Ffôn a'r Cyfryngau Cymdeithasol, a hynny ar dair lefel

wahanol:

- Nodiadau technegol – dogfen gyfeirio fanwl sy'n cynnwys gwybodaeth o'r Cod Ymarfer drafft.
- Canllawiau llawn – yn cynnwys hyperddolenni i ganllawiau ac adnoddau cysylltiedig a ddatblygwyd gan Swyddog y Gymraeg.
- Canllawiau cryno – canllaw un dudalen, yn cynnwys hyperddolenni i ddogfennau'r canllawiau llawn.

Datblygwyd adnoddau i gefnogi cydymffurfedd a gwasanaethau Cymraeg, er enghraifft, rhestrau a chanllawiau geirfa. Nodwyd gofynion ar gyfer adnoddau pellach yn ystod adolygiadau cydymffurfedd a thrafodaethau â staff, er enghraifft, yr angen am adnoddau i gynorthwyo diffoddwyr tân i ynganu enwau lleoedd, ffermydd ac eiddo yn gywir. Mae canllawiau ac adnoddau ar system Rheoli Dogfennau a Chyfathrebu y Gwasanaeth ar hyn o bryd, ond maent yn cael eu paratoi i'w trosglwyddo i'r fewnrwyd newydd yn 2022-23. Gweithiodd yr Adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes gyda'r Adran TGCh i sicrhau bod gwasanaeth mewnrwyd sy'n cydymffurfio yn cael ei ddatblygu.

Cynhaliwyd ymarfer cwsmer cudd rhannol i adolygu cydymffurfedd mewn perthynas â'r cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan. Gwnaed mân addasiadau a chywiriadau o ganlyniad. Mae ymarfer cwsmer cudd llawn wedi'i gynllunio ar gyfer 2022-23.

Cynhaliwyd adolygiad tri mis o'r gwasanaethau cyfieithu i archwilio effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a phriodoldeb cywair a hygyrchedd yr iaith. Bydd hyn yn llywio'r ymarfer caffael sydd i ddod ar gyfer gwasanaethau cyfieithu yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Datblygwyd proses newydd i asesu'r effaith ar y Gymraeg ar ôl bod yn bresennol yng ngweithdy Comisiynydd y Gymraeg ar y Safonau Llunio Polisïau ym mis Hydref 2020, a sylweddoli nad oedd ein proses yn cydymffurfio. Cymeradwywyd yr offeryn i Asesu'r Effaith ar y Gymraeg gan y Tîm Arweinyddiaeth Strategol ym mis Ebrill 2021. Mae'n ofynnol bellach i'r offeryn asesu hwn gael ei gynnwys gydag unrhyw bapurau sy'n cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo ac at ddibenion gwneud penderfyniadau. Mae Swyddog y Gymraeg yn cael copi o bob Asesiad drafft o'r Effaith ar y Gymraeg, ac yn rhoi cyngor i'r awdur ar gydymffurfedd â'r safonau ac unrhyw addasiadau neu welliannau y mae angen eu gwneud. Mae hyn wedi hybu trafodaethau am faterion yn ymwneud â'r Gymraeg, ac wedi eu prif-ffrydio.

Adolygwyd y modd yr aethom ati i roi cyhoeddusrwydd i'r Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg ar gyfer 2020-21. Crëwyd fideo o Roger Thomas, y Dirprwy Brif Swyddog Tân

ar y pryd, yn rhoi sylw i'r adroddiad ac, ar yr un pryd, yn annog holl ddefnyddwyr ein gwasanaethau a'n cymdeithion i 'ddefnyddio eu Cymraeg gyda ni.' Defnyddiwyd y fideo hwn ar Facebook a Twitter. Crëwyd datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd hefyd ar ein gwefan, a rhoddwyd sylw i'r adroddiad yn fewnol trwy ein e-fwletin 'Uchafbwyntiau Wythnosol.'

Ehangwyd cyfleoedd i ddysgu Cymraeg a meithrin sgiliau. O'r pedwar aelod ar y Bwrdd Gweithredol newydd, mae tri ohonynt yn siarad Cymraeg ac mae un yn dysgu siarad Cymraeg. Comisiynwyd mentor allanol er mwyn darparu hyfforddiant un i un penodol i aelodau'r Bwrdd Gweithredol. Bwriedir cynnig hwn i'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol ehangach yn 2022-23, a hefyd ddarparu hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd i'r un grŵp.

Rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â SaySomethinginWelsh i ddarparu cyfleoedd dysgu Cymraeg hyblyg sy'n addas ar gyfer staff gweithredol a staff cymorth, fel ei gilydd. Lansiwyd y cynllun peilot ar 1 Ebrill 2021, ac yn ystod 2021-22 cofrestrodd 22 o staff ar gyfer y rhaglen.

Diweddarwyd yr arolwg sgiliau iaith, sy'n seiliedig ar ddatganiadau 'Yn Gallu Gwneud' Cymdeithas Profwyr Ieithoedd Ewrop (ALTE) i fod yn gyson â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd (CEFR). Cafodd y data eu casglu a'u dadansoddi gan adrannau unigol yn ogystal â'r sefydliad cyfan, a hynny mewn ymateb i ddymuniadau'r Comisiynydd, a amlinellwyd yn ei ddogfen cyngor arfer da ar lunio adroddiad blynyddol ar safonau'r Gymraeg, i 'sicrhau mwy o gysondeb o ran cofnodi sgiliau Cymraeg cyflogeion.' Daeth 433 o ymatebion i law, sef cyfradd ymateb o 33% gan ein bod yn cyflogi 1,318 o staff ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, roedd yr ymatebion i'r arolwg yn siomedig iawn. Felly, bydd ffordd newydd o gasglu a choladu data sgiliau iaith yn cael ei chyflwyno yn 2022-23 er mwyn cynhyrchu proffil gwasanaeth cyfan o sgiliau Cymraeg y gellir ei ddiweddaru'n hawdd flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Adolygwyd gweithdrefn Canmoliaeth, Sylwadau a Chŵynion y Gwasanaeth yn ystod 2021-22 er mwyn sicrhau cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg gan fod yr Adolygiad o gydymffurfedd a gynhaliwyd yn 2021-21 wedi nodi nad oeddem yn cydymffurfio'n llawn.

Mae rhagor o fanylion a gwybodaeth yn ymwneud ag adolygiadau, canfyddiadau, gweithgarwch a chynlluniau cydymffurfedd wedi'u cynnwys yn y tablau isod.

## 5. Safonau o ran Cyflenwi Gwasanaethau, Gweithredu a Llunio Polisïau

Mae'r tabl isod yn cofnodi'r camau a gymerwyd yn ystod 2021-22, ynghyd â'n cynlluniau ar gyfer y camau i'w cymryd yn ystod 2022-23.

| Grŵp Safonau | Camau a gymerwyd yn ystod 2021-2022 | Camau i'w cymryd yn ystod 2022-2023 |
|---|---|---|
| **Safonau cyflenwi gwasanaethau** | | |
| Gohebiaeth 1, 4, 5-7 | Parhawyd â'r adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.<br><br>Datblygwyd canllawiau ac adnoddau.<br><br>Nodwyd mater yn ymwneud â Safon 4 ynghylch dealltwriaeth ac felly cydymffurfedd. Gofynnwyd am eglurhad gan y Swyddog Cydymffurfedd a darparwyd canllawiau ychwanegu i adrannau ac is-adrannau. | Sicrhau bod timau gweinyddol yr holl adrannau yn gyfarwydd â'r canllawiau a'r adnoddau.<br><br>Cynnal ymarfer Cwsmer Cudd. |
| Galwadau ffôn<br>8-10, 12-18, 20-22<br>Cyfarfodydd<br>24, 25/A/D<br>Cyfweliadau i gynorthwyo ag ymholiadau<br>26/A, 27/A | Parhawyd â'r adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.<br><br>Datblygwyd canllawiau ac adnoddau. | Cynnal ymarfer Cwsmer Cudd. |
| Cyfarfodydd Cyhoeddus<br>28-32 | Parhawyd i gynnal cyfarfodydd yr Awdurdod Tân trwy ddefnyddio Microsoft Teams, a gwnaed gwaith gyda'n gwasanaeth cyfieithu i wella'r broses o gyfieithu ar y pryd. | Cynhelir y cyfarfod wyneb yn wyneb cyntaf ers i gyfyngiadau COVID-19 gael eu llacio, ar 4 Gorffennaf 2022, sef y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.<br><br>Yn rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, byddwn yn llunio Gweithdrefn Aml-leoliad |

| Grŵp Safonau | Camau a gymerwyd yn ystod 2021-2022 | Camau i'w cymryd yn ystod 2022-2023 |
|---|---|---|
| **Safonau cyflenwi gwasanaethau** | | |
| | | ar gyfer yr Awdurdod a fydd yn cael ei chynnwys yn y Cyfansoddiad. Bydd y weithdrefn yn cynnwys canllawiau ynghylch defnyddio cyfleusterau cyfieithu ar y pryd yng nghyfarfodydd llawn yr Awdurdod a'r Pwyllgorau. |
| Digwyddiadau cyhoeddus 33-34 | Cafodd digwyddiadau cyhoeddus eu hatal oherwydd pandemig y coronafeirws.<br>Cwblhawyd adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.<br>Datblygwyd canllawiau. | Cynnal ymarfer Cwsmer Cudd. |
| Cyhoeddusrwydd a hysbysebu<br>35, 36<br>Dogfennau cyhoeddus 38, 45-47<br>Ffurflenni<br>48/A/B | Parhawyd â'r adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.<br><br>Datblygwyd canllawiau ac adnoddau.<br><br>Adolygwyd cywair yr iaith a ddefnyddir yn Gymraeg a Saesneg i sicrhau nad yw'r iaith yn rhy ffurfiol a'i bod yn ein galluogi i ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd.<br><br>Buom yn meithrin ymwybyddiaeth ledled pob Adran ynghylch yr amserlen ofynnol wrth ofyn am gyfieithiadau, a'r angen i farcio newidiadau mewn deunydd a gyfieithwyd | Parhau i fonitro a datblygu'r gwasanaethau cyfieithu a'u defnydd yn fewnol.<br><br>Parhau i adolygu a datblygu iaith hygyrch fwy anffurfiol |

| Grŵp Safonau | Camau a gymerwyd yn ystod 2021-2022 | Camau i'w cymryd yn ystod 2022-2023 |
|---|---|---|
| **Safonau cyflenwi gwasanaethau** | | |
| | o'r blaen, yn hytrach nag ailgyfieithu testunau llawn dro ar ôl tro. | |
| Gwefan 49, 52, 53<br>Apiau 54 | Cynhaliwyd ymarfer Cwsmer Cudd a gwnaed mân ddiwygiadau i'r wefan. | Er bod yr adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes yn gyfrifol am reoli gwefan allanol y Gwasanaeth, byddwn yn parhau i feithrin ymwybyddiaeth ymhlith Adrannau mai nhw sy'n gyfrifol am y cynnwys sy'n briodol i'w rolau a'u cylch gwaith, a bod angen iddynt sicrhau bod y cynnwys yn gyfredol ac yn gywir. |
| Y cyfryngau cymdeithasol 55-56 | Parhawyd â'r adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg ac â dadansoddeg ac adolygiad o'r ymgysylltiad.<br><br>Datblygwyd canllawiau ac adnoddau.<br><br>Adolygwyd cywair yr iaith a ddefnyddir yn Gymraeg a Saesneg i sicrhau nad yw'r iaith yn rhy ffurfiol a'i bod yn ein galluogi i ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd.<br><br>Parhawyd i adolygu a threialu opsiynau gwahanol ar gyfer postio ar ein cyfrif cyfryngau cymdeithasol corfforaethol – postio'n ddwyieithog/postio ddwywaith, ac ar wahân yn Gymraeg a Saesneg. | Parhau i sicrhau bod pob adran sydd â chyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn deall bod Safon 56, mewn perthynas ag ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg, yn berthnasol iddi, ac y dylai ystyried gohebiaeth ddwyieithog ar ei sianeli cyfryngau cymdeithasol yn arfer gorau. |

| Grŵp Safonau | Camau a gymerwyd yn ystod 2021-2022 | Camau i'w cymryd yn ystod 2022-2023 |
|---|---|---|
| **Safonau cyflenwi gwasanaethau** | | |
| Arwyddion 58-60<br>Gwasanaethau'r derbynfeydd 61, 64-5<br>Hysbysiadau 66, 67<br>Tendrau 73, 74/A, 75, 77 | Parhawyd â'r adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.<br><br>Datblygwyd canllawiau.<br><br>Darganfuwyd arwyddion nad ydynt yn cydymffurfio – nid oedd yn bosibl cynnal archwiliad oherwydd cyfyngiadau pandemig y Coronafeirws.<br><br>Gwnaed newidiadau i ddogfennaeth caffael 'Proc 5' o ganlyniad i adolygiad cydymffurfedd adrannol, mewn perthynas â chasglu cofnodion o fod wedi cynnal archwiliadau ar gyfer Safon 73. | Cynnal archwiliad o'r arwyddion a chaffael yr adnoddau gofynnol. |
| Hyrwyddo gwasanaethau 78-79<br>Hunaniaeth gorfforaethol 80 | Datblygwyd canllawiau. | Adolygu a datblygu'r broses o hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg yn rhan o adolygiad o strategaeth y Gymraeg y Gwasanaeth o dan ein Prif Swyddog Tân a Bwrdd Gweithredol newydd. |
| Cyrsiau addysg 81 | Parhawyd i gefnogi'r adran Diogelwch Cymunedol i ddatblygu adnoddau addysgol dwyieithog mewn perthynas â Sbarc. | Cefnogi lansiad Staywise Cymru a'r broses barhaus o ddatblygu adnoddau addysg dwyieithog. |
| Negeseuon i annerch y cyhoedd 82 | Parhawyd â'r adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.<br><br>Datblygwyd canllawiau. | |

| **Safonau llunio polisïau** | | |
|---|---|---|
| Safonau llunio polisïau 85-90, 92-94 | Cymeradwywyd yr offeryn i Asesu'r Effaith ar y Gymraeg ym mis Ebrill 2021. Mae'n ofynnol bellach i'r offeryn asesu hwn gael ei ddefnyddio yn achos unrhyw bapurau sy'n cael eu drafftio at ddibenion gwneud penderfyniadau gan Dîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth a'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol.<br><br>Mae Swyddog y Gymraeg yn cael copi o bob Asesiad drafft o'r Effaith ar y Gymraeg, ac yn rhoi cyngor ar gydymffurfedd â safonau'r Gymraeg a pha un a ddylid, neu a ellid, gwneud unrhyw addasiadau neu welliannau neu beidio.<br><br>Yn ôl y disgwyl, mae'r broses o gyflwyno'r offeryn i asesu'r effaith ar y Gymraeg wedi hwyluso gwaith dadansoddi ac adrodd mwy manwl ac wedi cynyddu ymwybyddiaeth o'r Safonau, a chydymffurfedd â nhw. Mae hefyd wedi hwyluso'r broses o feithrin perthnasoedd gwaith effeithiol rhwng Swyddog y Gymraeg ac ystod eang o staff adrannol a rhanbarthol | Adolygu a diwygio cynnwys yr offeryn i Asesu'r Effaith ar y Gymraeg.<br><br>Datblygu a chyflwyno Strategaeth y Gymraeg newydd.<br><br>Adolygu'r polisi cwynion cyflogaeth mewnol. |

| Grŵp Safonau | Camau a gymerwyd yn ystod 2021-2022 | Camau i'w cymryd yn ystod 2022-2023 |
|---|---|---|
| **Safonau Gweithredu** | | |
| Polisi'r Gymraeg 95 | Cwblhawyd adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg. | Ymgynghori ar y drafft a chyflwyno polisi newydd. |
| Contractau a gohebiaeth ynglŷn â chyflogaeth 96-101 | Parhawyd â'r adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.<br><br>Datblygwyd canllawiau a'u cyhoeddi ar system fewnol rheoli dogfennau a chyfathrebu '@work'.<br><br>Atgoffwyd Rheolwyr mewn trafodaeth ynghylch adolygiad o gydymffurfedd fod ganddynt rôl o ran gwybod beth yw dewisiadau iaith eu staff, ac o ran sicrhau bod y staff yn gwybod pa wasanaethau sydd ar gael iddynt.<br><br>Cysylltwyd â'r Adran Datblygu Pobl a'r Sefydliad i sicrhau bod ymwybyddiaeth o gynnwys a gofynion y Safonau yn rhan annatod o'r prosesau hyfforddi a datblygu rheolwyr. | Parhau i gysylltu â'r Adran Datblygu Pobl a'r Sefydliad i ymgorffori gofynion y Safonau yn y broses o ddarparu hyfforddiant. |
| Cyhoeddi polisïau yn Gymraeg 102-108 | Parhawyd â'r adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg. | Parhau i adolygu polisïau presennol i sicrhau cydymffurfedd llawn. |
| Cwynion gan ac yn erbyn staff<br>109/A, 110, 112<br>Y broses ddisgyblu 113/A, 115-6 | Parhawyd â'r adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg. | Sicrhau bod canllawiau ar gŵynion, cwynion cyflogaeth a materion disgyblu mewnol yn cynnwys cyfeiriad at ofynion y Gymraeg, a'u bod |

| Grŵp Safonau | Camau a gymerwyd yn ystod 2021-2022 | Camau i'w cymryd yn ystod 2022-2023 |
|---|---|---|
| **Safonau cyflenwi gwasanaethau** | | |
| | | yn cael eu rhannu â'r Penaethiaid Adrannau/ Rheolwyr priodol. |
| Darparu meddalwedd a rhyngwynebau cyfrifiadurol 117<br>Y Fewnrwyd<br>119, 121-2 | Parhawyd â'r adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.<br><br>Cefnogwyd yr adran TGCh i sicrhau cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg wrth i fewnrwyd newydd gael ei datblygu.<br><br>Trafodwyd rhyngwynebau a datrysiadau meddalwedd dwyieithog â'r Adran TGCh. | Parhau i gefnogi'r adran TGCh i sicrhau cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg wrth i fewnrwyd ddiwygiedig gael ei datblygu a'i rhoi ar waith.<br><br>Datblygu canllawiau a chymorth i staff i ddefnyddio rhyngwynebau a datrysiadau meddalwedd dwyieithog, a sicrhau eu bod ar gael i staff yn ôl y gofyn. |
| Sgiliau Cymraeg 124<br><br>Darparu hyfforddiant yn Gymraeg<br>125-6<br><br>Gwersi Cymraeg, hyfforddiant i reolwyr ac | Diwygiwyd cynnwys yr arolwg sgiliau iaith.<br><br>Adolygwyd ein dyletswydd a'n gallu i ddarparu cyfleoedd i ymgymryd â hyfforddiant iechyd a diogelwch yn Gymraeg yng nghyd-destun ein rôl o fod yn wasanaeth brys. Cafodd darpariaeth hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ei chynnwys yn yr ymarfer caffael iechyd a diogelwch newydd.<br><br>Parhawyd i gefnogi a chynnig cyfleoedd dysgu Cymraeg trwy Dysgu Cymraeg, Cymraeg Gwaith ac mewn partneriaeth â SaySomethinginWelsh (SSiW). | Adolygu'r dull o gipio data sgiliau iaith.<br><br>Datblygu strategaeth sgiliau iaith.<br><br>Datblygu a threialu sesiynau hyfforddi dwyieithog i annog staff i ddewis opsiynau Cymraeg ac i feithrin eu hyder a'u sgil wrth ddefnyddio'u Cymraeg mewn amgylchedd hyfforddi.<br><br>Ehangu sesiynau cymorth a'r cynllun cyfeillio i'r rhai sy'n dysgu Cymraeg ac yn gloywi'u Cymraeg.<br><br>Ehangu'r cynllun hyfforddi ar gyfer siaradwyr Cymraeg. |

| Grŵp Safonau | Camau a gymerwyd yn ystod 2021-2022 | Camau i'w cymryd yn ystod 2022-2023 |
|---|---|---|
| **Safonau cyflenwi gwasanaethau** | | |
| ymwybyddiaeth o'r Gymraeg 127-129 | Cyflwynwyd sesiwn ymwybyddiaeth o'r Gymraeg newydd ar gyfer diffoddwr tân sy'n recriwtiaid. | Darparu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol.<br><br>Datblygu deunydd dysgu cyfunol ac o bell. |
| Ymsefydlu 130 | Adolygwyd cynnwys Cymraeg cyffredinol y cyfnod ymsefydlu. Datblygwyd deunyddiau ymsefydlu newydd ar gyfer recriwtiaid gweithredol. | Adolygu cynnwys a deunyddiau Cymraeg cyffredinol y cyfnod ymsefydlu. |
| Llofnodion negeseuon e-bost a manylion cyswllt 131-2 | Cwblhawyd adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.<br><br>Datblygwyd canllawiau ac adnoddau. | Cynnal ymarfer Cwsmer Cudd. |
| Bathodynnau staff 133/A | Datblygwyd canllawiau ac adnoddau. | |
| Recriwtio 134/A, 135/A/B, 137-8 | Datblygwyd canllawiau ac adnoddau.<br><br>Adolygwyd effeithiolrwydd y broses ar gyfer cyfieithu deunydd recriwtio. | Datblygu proses newydd ar gyfer cyfieithu deunydd recriwtio. |
| Arwyddion yn y gweithle 140/1 | Datblygwyd canllawiau ac adnoddau. | Cynnal archwiliad o'r arwyddion yn y gweithle. |
| Cyhoeddiadau yn y gweithle 142 | Datblygwyd canllawiau ac adnoddau. | |

## 6. Safonau Cadw Cofnodion

### Cwynion


Mae'r tabl isod yn dangos na chafwyd unrhyw gŵynion yn ystod y cyfnod adrodd:

| Grŵp Safonau | Cwynion a ddaeth i law yn uniongyrchol |
|---|---|
| Safonau cyflenwi gwasanaethau | 0 |
| Safonau llunio polisi | 0 |
| Safonau Gweithredu | 0 |


# SGILIAU CYMRAEG Y GWEITHWYR

Mae'r data ar gyfer 2021-22 yn ymddangos yn y tablau isod:


| | Lefel darged o ran Dealltwriaeth | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y Lefel Bresennol o ran Dealltwriaeth** | **Dim lefel** | **A1 / Lefel Mynediad** | **A2 / Lefel 1** | **B1 / Lefel 2** | **B2 / Lefel 3** | **C1 / Lefel 4** | **C2 / Lefel 5** | **Cyfanswm** |
| **Dim** – nid oes gennych ddealltwriaeth ar unrhyw lefel. | 29 | 2 | 3 | 2 | | | 1 | 37 |
| **Lefel A1 (Mynediad)** – gallwch adnabod cyfarchion sylfaenol bob dydd, er enghraifft, bore da, diolch, os yw'r unigolyn yn siarad yn araf iawn. | 24 | 53 | 34 | 25 | 19 | 9 | 6 | 170 |
| **Lefel A2** – gallwch ddeall ymholiadau syml, gwybodaeth bersonol neu gyfarwyddiadau. | 5 | 1 | 13 | 5 | 8 | 6 | 10 | 48 |
| **Lefel B1 (2)** – gallwch ddeall pobl yn siarad yn araf am sefyllfaoedd bob dydd a rhywun yn rhoi cyfarwyddiadau, neu'n gofyn i chi neu rywun arall wneud rhywbeth. | 1 | | 1 | 2 | 8 | 7 | 7 | 26 |
| **Lefel B2 (3)** – gallwch ddeall gwybodaeth am bynciau cyffredin neu bob dydd, a phobl yn siarad yn glir wrth wneud cyhoeddiadau neu ar y cyfryngau llafar. | 2 | | | 1 | 9 | 7 | 9 | 28 |
| **Lefel C1 (4)** – gallwch ddeall y rhan fwyaf o sgyrsiau a thrafodaethau, hyd yn oed os nad ydych yn gyfarwydd â'r pwnc, a bod yna wahaniaethau o ran Cymraeg ffurfiol/anffurfiol a thafodieithoedd. | 2 | 1 | 1 | | | 27 | 23 | 54 |
| **Lefel C2 (5)** – gallwch ddeall pob sgwrs a thrafodaeth rhwng pobl eraill yn ymwneud â phob math o bynciau ac mewn pob math o Gymraeg llafar, gan gynnwys darlithoedd neu drafodaethau cymhleth. | 19 | | | | | | 51 | 70 |
| **Cyfanswm** | 82 | 57 | 52 | 35 | 44 | 56 | 107 | 433 |


Y Lefel Bresennol o ran Dealltwriaeth
100%
90%
80%
70%
60%
50%
40%
30%
20%
10%
0%
Dim
Lefel A1 (Mynediad)
Lefel A2 (1)
Lefel B1 (2)
Lefel B2 (3)
Lefel C1 (4)
Lefel C2 (5)
C2 / Lefel 5
C1 / Lefel 4
B2 / Lefel 3
B1 / Lefel 2
A2 / Lefel 1
A1 / Lefel (Mynediad)
Dim Lefel


| | **Lefel darged o ran Siarad** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y Lefel Bresennol o ran Siarad** | **Dim lefel** | **A1 / Lefel Mynediad** | **A2 / Lefel 1** | **B1 / Lefel 2** | **B2 / Lefel 3** | **C1 / Lefel 4** | **C2 / Lefel 5** | **Cyfanswm** |
| **Dim** – nid oes gennych sgiliau siarad ar unrhyw lefel. | 31 | 5 | 4 | 2 | | | 1 | 43 |
| **Lefel A1 (Mynediad)** – gallwch ailadrodd rhai geiriau syml, sylfaenol ar ôl eu clywed yn aml. | 19 | 48 | 22 | 20 | 14 | 2 | 3 | 128 |
| **Lefel A2** – gallwch ynganu enwau lleoedd, enwau personol a'r geiriau ar arwyddion yn gywir, neu gyfarch a chyflwyno pobl eraill, neu roi a chael manylion personol. | 5 | 3 | 20 | 16 | 19 | 12 | 14 | 89 |
| **Lefel B1 (2)** – gallwch wneud ymholiadau syml neu ymateb iddynt, rhoi gwybodaeth a chyfarwyddiadau syml neu ymateb iddynt, a chynnal sgwrs fer gan gyfnewid gwybodaeth syml. | 3 | | 1 | 5 | 6 | 13 | 11 | 39 |
| **Lefel B2 (3)** – gallwch gymryd rhan yn y rhan fwyaf o sgyrsiau neu gyfarfodydd gan droi i'r Saesneg ar gyfer trafodaeth neu wrth roi gwybodaeth fanwl. | 1 | | | | 13 | 9 | 10 | 33 |
| **Lefel C1 (4)** – gallwch gyfrannu mewn modd effeithiol at y rhan fwyaf o gyfarfodydd gwaith, cynnal sgwrs yn gyfforddus a chyfnewid gwybodaeth gan droi i'r Saesneg ar gyfer terminoleg dechnegol. | 5 | | | | | 26 | 26 | 57 |
| **Lefel C2 (5)** – gallwch eich mynegi eich hun yn llawn ac yn fanwl gywir, hyd yn oed wrth drafod materion cymhleth, ac addasu arddull eich iaith i weddu i'r gynulleidfa neu'r cyd-destun. | 10 | | | | | | 34 | 44 |
| **Cyfanswm** | 74 | 56 | 47 | 43 | 52 | 62 | 99 | 433 |


Y Lefel Bresennol o ran Siarad
100%
90%
80%
70%
60%
50%
40%
30%
20%
10%
0%
C2 / Lefel 5
C1 / Lefel 4
B2 / Lefel 3
B1 / Lefel 2
A2 / Lefel 1
A1 / Lefel (Mynediad)
Dim Lefel
Dim
Lefel A1 (Mynediad)
Lefel A2 (1)
Lefel B1 (2)
Lefel B2 (3)
Lefel C1 (4)
Lefel C2 (5)

| | Lefel darged o ran Darllen | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y Lefel Bresennol o ran Darllen** | **Dim lefel** | **A1 / Lefel Mynediad** | **A2 / Lefel 1** | **B1 / Lefel 2** | **B2 / Lefel 3** | **C1 / Lefel 4** | **C2 / Lefel 5** | **Cyfanswm** |
| **Dim** – nid oes gennych sgiliau darllen ar unrhyw lefel. | 46 | 10 | 7 | 4 | 1 | | | 68 |
| **Lefel A1 (Mynediad)** – gallwch adnabod rhai geiriau byr, sylfaenol. Gallwch hefyd ddyfalu ystyr rhai geiriau pan fyddant mewn cyd-destun esboniadol. | 14 | 49 | 25 | 19 | 14 | 6 | 4 | 131 |
| **Lefel A2** – gallwch ddarllen brawddegau byr, arwyddion sylfaenol a chyfarwyddiadau neu wybodaeth syml. | 4 | 1 | 13 | 12 | 15 | 7 | 9 | 61 |
| **Lefel B1 (2)** – gallwch ddarllen negeseuon byr a deall rhai negeseuon e-bost sylfaenol | 1 | | 1 | 5 | 8 | 5 | 9 | 29 |
| **Lefel B2 (3)** – gallwch ddeall y rhan fwyaf o negeseuon yn ymwneud â gwaith o ddydd i ddydd, a dyfalu ystyr gair os yw'r pwnc yn gyfarwydd. | 2 | | | 1 | 13 | 11 | 9 | 36 |
| **Lefel C1 (4)** – gallwch ddarllen y rhan fwyaf o ohebiaeth a sganio trwy destunau hir i ddod o hyd i fanylion, a deall y rhan fwyaf o erthyglau ac adroddiadau gyda chymorth geiriadur. | 2 | | | | 1 | 27 | 19 | 49 |
| **Lefel C2 (5)** – gallwch ddarllen a deall bron pob testun ysgrifenedig yn hawdd gan ddefnyddio geiriadur yn achlysurol yn unig, darllen testunau, adroddiadau ac erthyglau hir i ddod o hyd i fanylion perthnasol, a deall ysgrifennu ffurfiol ac anffurfiol. | 15 | | | | | 1 | 43 | 59 |
| **Cyfanswm** | 84 | 60 | 46 | 41 | 52 | 57 | 93 | 433 |


Y Lefel Bresennol o ran Darllen
100%
90%
80%
70%
60%
50%
40%
30%
20%
10%
0%
Dim
Lefel A1 (Mynediad)
Lefel A2 (1)
Lefel B1 (2)
Lefel B2 (3)
Lefel C1 (4)
Lefel C2 (5)
C2 / Lefel 5
C1 / Lefel 4
B2 / Lefel 3
B1 / Lefel 2
A2 / Lefel 1
A1 / Lefel (Mynediad)
Dim Lefel

| | Lefel darged o ran Ysgrifennu | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y Lefel Bresennol o ran Ysgrifennu** | **Dim lefel** | **A1 / Lefel Mynediad** | **A2 / Lefel 1** | **B1 / Lefel 2** | **B2 / Lefel 3** | **C1 / Lefel 4** | **C2 / Lefel 5** | **Cyfanswm** |
| **Dim** – nid oes gennych sgiliau ysgrifennu ar unrhyw lefel. | 67 | 14 | 8 | 7 | 4 | 1 | | 101 |
| **Lefel A1 (Mynediad)** – gallwch ysgrifennu gair Cymraeg byr heb fawr o gymorth. | 10 | 45 | 23 | 16 | 15 | 3 | 10 | 122 |
| **Lefel A2** – gallwch agor a chloi neges e-bost ac ysgrifennu enwau personol, enwau lleoedd a theitlau swyddi. | 3 | | 16 | 17 | 18 | 5 | 12 | 71 |
| **Lefel B1 (2)** – gallwch ysgrifennu neges fer at gyd-weithiwr ac ysgrifennu neges fer i drefnu apwyntiad. | 4 | | | 13 | 8 | 8 | 8 | 41 |
| **Lefel B2 (3)** – gallwch ysgrifennu neges am y rhan fwyaf o bynciau ac ysgrifennu'n gymharol gywir am y rhan fwyaf o bynciau cyfarwydd. | 3 | | | 1 | 11 | 8 | 13 | 36 |
| **Lefel C1 (4)** – gallwch lunio gohebiaeth o bob math. | 3 | | | | | 18 | 11 | 32 |
| **Lefel C2 (5)** – gallwch ysgrifennu negeseuon estynedig, adroddiadau neu fathau eraill o ysgrifennu mewn arddull sy'n briodol i'r darllenydd, ysgrifennu mewn Cymraeg ffurfiol neu anffurfiol, yn ôl yr angen, ac ysgrifennu ar ystod eang o destunau gan ddefnyddio lefel uchel o gywirdeb. | 6 | | | | | | 24 | 30 |
| **Cyfanswm** | **96** | **59** | **47** | **54** | **56** | **43** | **78** | **433** |


Y Lefel Bresennol o ran Ysgrifennu
100%
90%
80%
70%
60%
50%
40%
30%
20%
10%
0%
Dim
Lefel A1 (Mynediad)
Lefel A2 (1)
Lefel B1 (2)
Lefel B2 (3)
Lefel C1 (4)
Lefel C2 (5)
C2 / Lefel 5
C1 / Lefel 4
B2 / Lefel 3
B1 / Lefel 2
A2 / Lefel 1
A1 / Lefel (Mynediad)
Dim Lefel

# DARPARU HYFFORDDIANT YN GYMRAEG

| Math o hyfforddiant | Nifer a ddilynodd y fersiwn Gymraeg | Nifer a ddilynodd y fersiwn Saesneg | Y ganran a ddilynodd y fersiwn Gymraeg |
|---|---|---|---|
| Recriwtio a chyf-weld | 9 | 112 | 8% |
| Rheoli perfformiad | 0 | 985 | 0% |
| Cwynion a gweithdrefnau disgyblu | 0 | 0 | 0 |
| Ymsefydlu | 4 | 51 | 7% |
| Ymdrin â'r cyhoedd | 0 | 0 | 0 |
| Iechyd a diogelwch Adnoddau Dynol/ Risgiau Corfforaethol | 0 | 680 | 0% |
| Datblygu Pobl a'r Sefydliad | 0 | 874 | 0% |

**Swyddi newydd a gwag**

| Categori | Nifer y swyddi sydd wedi'u categoreiddio | Canran y swyddi sydd wedi'u categoreiddio |
|---|---|---|
| Hanfodol | 4 | 7% |
| Dymunol | 51 | 93% |
| Angen dysgu Cymraeg | 0 | 0% |
| Nid oes angen sgiliau Cymraeg | 0 | 0% |

# 7. CASGLIAD

Fel yr amlinellir yng nghorff yr adroddiad hwn, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, gyda chefnogaeth ei gorff llywodraethu, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, wedi ymrwymo i gynyddu'r lefelau cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.

Rydym ni, y Gwasanaeth, yn falch o'r camau sylweddol yr ydym eisoes wedi'u cymryd i wella'r gwasanaeth dwyieithog a ddarparwn ar gyfer defnyddwyr ein gwasanaethau, ein staff, ein rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod yna le i wella o hyd, a byddwn yn mynd i'r afael â hynny yn ystod 2022-23. Bydd Cynllun Gweithredu trosfwaol ar gyfer y Gymraeg yn cael ei ddatblygu ar gyfer 2022-23 i sicrhau bod y camau hyn yn cael eu cyflawni.

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb i'r Gymraeg a siaradwyr Cymraeg, a bydd yn parhau i hyrwyddo, cefnogi ac annog y defnydd o'r Gymraeg yn y Gwasanaeth a'n cymunedau ar bob cyfle.

I gael rhagor o wybodaeth am fanylion yr adroddiad hwn, neu i gael rhagor o wybodaeth am y modd y mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith, cysylltwch â Clare Grist, Swyddog y Gymraeg, trwy anfon neges e-bost at c.grist@tancgc.gov.uk.

# SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL
Ebrill 2021 – Mawrth 2022

**Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes**
Corporate Communications and Business Development

**www.tancgc.gov.uk**

JR1501